Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygu monitro blynyddol ar

# Ysgol Greenfields

## Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2014

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi.  Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â’r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae’r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad.**

**Dyddiad cyhoeddi:  09/01/2015**

## Cyd-destun

Ysgol arbennig annibynnol i ddysgwyr rhwng 11 ac 18 oed yw Ysgol Greenfields. Mae pob un o’r dysgwyr yn blant sy’n cael gofal ac mae gan y rhan fwyaf ohonynt ddatganiad o anghenion addysgol. Mae’r ysgol wedi’i lleoli yn un o faestrefi Casnewydd. Mae’r dysgwyr yn byw mewn cartrefi oddi ar y safle ac yn mynychu bob dydd.

Gadawodd uwch dîm rheoli’r ysgol ar ddiwedd tymor yr haf. Penododd y perchnogion bennaeth dros dro, ac mae’r ysgol wedi parhau i gynnig cwricwlwm llawn ar gyfer dysgwyr. Mae’r perchnogion wedi penodi pennaeth newydd yn ddiweddar, a fydd yn dechrau ar ei swydd yn ddiweddarach yn nhymor yr hydref. Mae’r newidiadau hyn wedi golygu bod llawer o’r gwaith arwain arferol, fel diweddaru polisïau, yn aros am y pennaeth newydd. Mae adroddiad hunanarfarnu’r ysgol (AHA), y cynllun datblygu ansawdd (CDA) a’r cynllun gweithredu wedi dyddio ar hyn o bryd.

Mae’r rhan fwyaf o’r ystafelloedd dosbarth wedi cael eu hadnewyddu’n ddiweddar ac mae’r ysgol yn elwa ar adnoddau o ansawdd da.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

- caiff gwaith dysgwyr ei gyflwyno’n gyson dda ac mae’n ddestlus;
- mae’r ysgol wedi gwneud gwelliannau sylweddol i’r ystafelloedd dosbarth. Ceir ystafelloedd penodol sydd wedi’u neilltuo ar gyfer pynciau fel dylunio a thechnoleg a gwyddoniaeth. Mae’r ysgol wedi datblygu ‘canolfan’ ddysgu werthfawr ar gyfer cymorth llythrennedd a rhifedd. Mae pob ystafell addysgu yn cynnwys offer da ac adnoddau cyfoes;
- mae cynlluniau addysg unigol (CAUau) yn cynnwys targedau byr ar gyfer camau dysgu bach sy’n galluogi dysgwyr ac athrawon i fesur cynnydd yn hawdd;
- mae gan yr ysgol amserlen gynlluniedig ar gyfer datblygiad staff. Mae’r gweithgareddau hyn yn berthnasol i wella dysgu, addysgu a lles dysgwyr; a
- rhoddir blaenoriaeth uchel i ofal, cymorth ac arweiniad ar gyfer pob dysgwr yn yr ysgol ac mae dysgwyr yn elwa ar leoliadau gwaith a phrofiadau dysgu sydd wedi’u cynllunio’n dda.

## Meysydd i'w datblygu

- nid yw llawer o bolisïau'r ysgol wedi cael eu hadolygu a'u diweddaru ar gyfer y flwyddyn bresennol;
- nid yw'r polisi diogelu yn cysylltu'n ddigon da â pholisïau eraill fel y polisi gwrth-fwlio a'r polisi ABCh. Nid oes llwybr i'w ddilyn os caiff unrhyw honiad ei wneud yn erbyn y pennaeth neu'r swyddog amddiffyn plant dynodedig;
- mae gan yr ysgol gofnod defnyddiol o faint o amser y mae dysgwyr allan o'r dosbarth, eu lleoliad a'r unigolyn sy'n eu goruchwylio. Fodd bynnag, ni chaiff cofnodion eu cwblhau'n gyson a phan fydd cofnodion yn datgan nad yw disgyblion wedi mynd yn ôl i'r dosbarth, nid oes cofnod o ble y maen nhw na gyda phwy;
- mae gan yr ysgol amserlen gynlluniedig o arsylwadau gwersi ac fe gaiff athrawon adborth ysgrifenedig gwerthfawr. Fodd bynnag, nid yw arsylwadau gwersi'n canolbwyntio'n ddigon da ar ddysgu, safonau dysgwyr a deilliannau dysgwyr;
- mae lefel presenoldeb dysgwyr yn isel iawn ac mae data presenoldeb eleni rhwng 65% a 75%. Mae'r presenoldeb misol cyfartalog er 2013 yn amrywio o 32% i 77%; ac
- nid oes paneli gweld mewn rhai drysau yn yr ysgol, gan gynnwys drysau i'r 'ganolfan' newydd a'r ystafell gyrfaoedd, a gallai hyn fod yn beryglus i staff a dysgwyr.

## Argymhellion

A1 Sicrhau cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003

A2 Adolygu pob polisi bob blwyddyn

A3 Gwneud yn siŵr bod y polisi diogelu yn cysylltu â pholisïau perthnasol eraill

A4 Gwneud yn siŵr bod y polisi diogelu yn cynnwys manylion am y camau gweithredu fydd yn cael eu cymryd os bydd honiad yn erbyn y pennaeth neu'r swyddog amddiffyn plant

A5 Gwneud yn siŵr bod amseroedd cywir yn cael eu cofnodi pan fydd dysgwyr yn gadael a mynd yn ôl i ystafell ddosbarth a chofnodion clir o'r gyrchfan a'r goruchwyliwr pan nad yw dysgwyr yn mynd yn ôl i wersi

A6 Gwella arsylwadau gwersi i ganolbwyntio ar ddysgu, cynnydd dysgwyr a safonau a deilliannau dysgwyr

A7 Gwella presenoldeb dysgwyr

A8 Gwneud yn siŵr bod paneli gweld ym mhob ystafell berthnasol

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o'r nodyn ymweliad neu'r adroddiad arolygu blaenorol

**Argymhelliad 1: Gwella polisi amddiffyn plant yr ysgol i gynnwys arweiniad ar gyfer defnyddio ardaloedd neilltuo, a chysylltu'r polisi â pholisïau eraill yr ysgol, yn cynnwys ymddygiad, gwrth-fwlio a diogelwch ar y rhyngrwyd**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r ysgol wedi cael gwared ar yr holl ardaloedd neilltuo a ddynodwyd yn benodol ac mae'r polisi amddiffyn plant wedi cael ei ddiwygio i adlewyrchu hyn. Fodd bynnag, nid yw cysylltiadau â pholisïau eraill yn amlwg.

**Argymhelliad 2: Cyflwyno system ar gyfer cofnodi amseroedd a manylion pan fydd disgyblion yn gweithio y tu allan i'w dosbarth er mwyn aros yn dawel**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r ysgol wedi cyflwyno system ddefnyddiol ar-lein ar gyfer cofnodi amseroedd a manylion pan fydd disgyblion yn gweithio'r tu allan i'w dosbarth er mwyn aros yn dawel. Caiff data ei ddadansoddi'n aml i wneud yn siŵr y gellir mynd i'r afael yn briodol â phatrymau ymddygiad cylchol. Fodd bynnag, nid oes unrhyw gofnodion ar gyfer achosion pan na fydd disgyblion yn mynd yn ôl i'r dosbarth a dim cofnod o bwy sy'n eu goruchwylio ar yr adeg hon.

**Argymhelliad 3: Datblygu system gadarn i fonitro, olrhain a dadansoddi presenoldeb disgyblion yn yr ysgol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r ysgol wedi cyflwyno system gynhwysfawr i fonitro, olrhain a dadansoddi presenoldeb disgyblion.

**Argymhelliad 4: Gwella'r rhaglen datblygu staff bresennol i gynnwys mesur o ansawdd yr addysgu ac effaith hyn ar ddeilliannau disgyblion**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae gan yr ysgol raglen gynlluniedig o weithgareddau datblygu staff sydd wedi'i seilio ar wybodaeth o ddata rheoli perfformiad staff. Mae'r testunau yr ymdrinnir â nhw yn berthnasol i'r staff a'r disgyblion. Fodd bynnag, ni chaiff effaith y digwyddiadau hyfforddi hyn ar ddeilliannau disgyblion ei mesur.

**Argymhelliad 5: Rhoi'r broses rheoli perfformiad ar waith yn llawn**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae'r broses rheoli perfformiad wedi cael ei rhoi ar waith yn llawn.

**Argymhelliad 6: Gwella targedau ar gynlluniau addysg unigol i wneud yn siŵr bod cynnydd a chyflawniad yn gallu cael eu mesur yn hawdd**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r rhan fwyaf o dargedau ar gynlluniau dysgu unigol yn fyr a mesuradwy. Fodd bynnag, nid yw'r broses ar gyfer adolygu targedau wedi'i datblygu'n ddigonol.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

**Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion**

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon yn llawn. Er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, dylai'r ysgol:

- Wneud yn siŵr bod y polisi gwrth-fwlio yn amlinellu'r broses ar gyfer cofnodi achosion o fwlio [(3(2a)];
- Gwneud yn siŵr bod y polisi diogelu yn cynnwys manylion am y camau y dylid eu cymryd os bydd honiad yn erbyn y pennaeth neu'r swyddog amddiffyn plant [(3(2b)];
- Adolygu'r polisi diogelu bob blwyddyn [(3(2b)]; a
- Gwneud yn siŵr bod y polisi cymorth cyntaf yn cynnwys cyfeiriad at ddisgyblion sydd â chyflyrau meddygol penodol; pa lefelau o anafiadau y gellir eu trin ar y safle ac sy'n sbarduno galwad brys neu ymweld ag ysbyty fel mater o drefn; ac arweiniad ar weithdrefnau hylendid pan gaiff gwaed neu hylif y corff eu gollwng 3(6).

**Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 4.

**Safon 5: Adeiladau a llety preswyl mewn ysgolion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

**Safon 6: Darparu gwybodaeth**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 6.

**Safon 7: Y modd y dylid ymdrin â chwynion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 7.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, efallai byddai Cynulliad Cenedlaethol Cymru am ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Nid yw’r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003 ar hyn o bryd. I gydymffurfio’n llawn â’r gofynion hyn, dylai’r ysgol fynd i’r afael â’r materion a nodwyd uchod ar gyfer pob safon.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Ysgol** | Ysgol Greenfields |
| **Rhif yr ysgol** | 680 6005 |
| **Diben yr ymweliad** | Arolygiad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 03/11/2014 |
| **Perchennog** | CareTech UK |
| **Staff** | Pennaeth dros dro, 5 athro amser llawn (gan gynnwys un sydd â chyfrifoldeb am ofalwyr, un sydd â rôl cydlynydd anghenion addysgol arbennig ac un athro sydd newydd gymhwyso). |
| **Nifer y disgyblion** | 6 yn yr ysgol a 4 yn cael eu haddysgu mewn mannau eraill. |
| **Darpariaeth** | Diwrnod yn unig |
| **Math o angen addysgol arbennig (AAA) y mae’r ysgol yn darparu ar ei gyfer** | Anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol |
| **Arolygiad Adran 163 diwethaf** | 11/05/2014 |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | 18/09/2014 |
| **Arolygiad diwethaf gan AGGCC** | |

## Gwybodaeth am y tîm

| | |
|---|---|
| Mrs Gill Sims | Arolygydd Cofnodol |
| Mrs Claire Yardley | Arolygydd Tîm |